

**Arolygiad o Bractis
Deintyddol Cyffredinol
(Lle rhoddwyd rhybudd)
Bwrdd Iechyd Prifysgol
Abertawe Bro Morgannwg,
Practis Deintyddol
Woodlands**

23 Chwefror 2015

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr am fod ieithoedd a fformatau eraill yn cael eu cynhyrchu ar gais i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

**Y Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ**

Neu drwy

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: hiw@wales.gsi.gov.uk
Ffacs: 0300 062 8387
Gwefan: www.hiw.org.uk

Cynnwys

1.	Cyflwyniad.....	2
2.	Methodoleg	2
3.	Cyd-destun.....	4
4.	Crynodeb	5
5.	Canfyddiadau	7
	Profiad y Claf.....	7
	Cyflenwi Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru	9
	Rheolaeth ac Arweinyddiaeth.....	14
	Ansawdd yr Amgylchedd.....	17
6.	Y Camau Nesaf.....	19
	Atodiad A.....	20

1. Cyflwyniad

Gwnaeth Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) gwblhau arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o Bractis Deintyddol Woodlands yn 18 Gerddi Victoria, Castell-nedd, SA11 3BE, yn yr ardal a wasanaethir gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg ar 23 Chwefror 2015.

Ystyriwyd ac adolygwyd y meysydd canlynol yn ystod yr arolygiad:

- Profiad y claf
- Cyflenwi Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru
- Rheolaeth ac arweinyddiaeth
- Ansawdd yr amgylchedd.

2. Methodoleg

Mae arolygiadau AGIC o Bractisau Deintyddol Cyffredinol yn ceisio canfod pa mor dda mae practisau'n bodloni'r safonau yn *Gwneud yn Dda, Gwneud yn Well: Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru*¹.

Adolygwyd dogfennau a gwybodaeth o nifer o ffynonellau yn ystod yr arolygiad, gan gynnwys:

- Gwybodaeth a gedwir gan AGIC
- Cyfweiliadau gyda staff gan gynnwys deintyddion a staff gweinyddol
- Sgyrsiau gyda staff nyrsio
- Archwilio sampl o gofnodion deintyddol cleifion
- Archwilio polisïau a gweithdrefnau'r practis
- Archwilio'r offer a'r safle

¹ Daeth *Gwneud yn Dda, Gwneud yn Well: Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru* i rym ar 1 Ebrill 2010. Mae'r fframwaith safonau yn nodi gofynion yr hyn a ddisgwylir gan bob gwasanaeth iechyd ym mhob lleoliad yng Nghymru. www.weds.wales.nhs.uk/opendoc/214438

- Gwybodaeth yn nhaflen wybodaeth a gwefan y practis
- Holiaduron cleifion AGIC.

Ar ddiwedd pob arolygiad, rydym yn cynnig trosolwg o'n prif ganfyddiadau i gynrychiolwyr y practis deintyddol er mwyn sicrhau eu bod yn derbyn adborth priodol.

Bydd y practis deintyddol a'r bwrdd iechyd yn cael eu hysbysu o unrhyw bryderon brys a allai godi o arolygiadau deintyddol trwy lythyr gweithredu ar unwaith. Bydd unrhyw ganfyddiadau o'r fath yn cael eu nodi, ynghyd ag unrhyw argymhellion eraill a wneir, yn Atodiad A yr adroddiad arolygu hwn.

Mae arolygiadau deintyddol yn cynnig cipolwg ar y modd y gweithredir safonau yn y practis a ymwelwyd ar ddiwrnod yr arolygiad.

3. Cyd-destun

Mae Practis Deintyddol Woodlands yn darparu gwasanaethau i gleifion yng Nghastell-nedd. Mae'r practis yn ffurfio rhan o wasanaethau deintyddol a ddarperir yn yr ardal ddaearyddol a adwaenir fel Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg.

Mae'r practis yn cyflogi tîm o staff sy'n cynnwys dau ddeintydd, dau hylenydd, pedair nyrs a rheolwr y practis. Darperir amrywiaeth o wasanaethau.

Mae Practis Deintyddol Woodlands yn bractis cymysg sy'n darparu gwasanaethau deintyddol preifat a gwasanaethau deintyddol y GIG. O ystyried hyn, bydd unrhyw ddeintydd sy'n gweithio yn y practis sydd hefyd wedi'i gofrestru gydag AGIC i ddarparu deintyddiaeth breifat, yn destun darpariaethau'r Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008 a'r Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) (Diwygio) 2011.

4. Crynodeb

Gwnaeth AGIC archwilio sut mae Practis Deintyddol Woodlands yn bodloni safonau gofal yn y ddogfen Gwneud yn Dda, Gwneud yn Well: *Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru*.

Dywedodd y cleifion a roddodd sylwadau inni yn ein holiaduron, eu bod yn fodlon ar y gwasanaeth a ddarperir gan dîm y practis.

Nid oedd system ffurfiol ar waith i gasglu barn y cleifion yn rheolaidd. Gwnaethom argymhell bod perchnogion y practis yn gweithredu system addas i dderbyn adborth gan y cleifion, er mwyn i welliannau i'r gwasanaeth gael eu nodi a'u gweithredu fel bo'n angenrheidiol.

Roedd y cyfleusterau clinigol yn y practis yn cynnwys yr offer perthnasol ar gyfer diogelwch y cleifion a'r staff. Roedd gweithdrefnau ar waith i ymateb i argyfyngau cleifion.

Nid oedd rhai o'r ddogfennaeth allweddol, a oedd yn ymwneud â defnyddio'r offer pelydr-X yn ddiogel, ar gael ar gyfer ei harolygu. Gwnaethom nodi nad oedd archwiliadau rheoli heintiau rheolaidd wedi cael eu cynnal. Ar ôl ein harolygiad, gwnaethom ofyn i'r practis am sicrwydd ysgrifenedig ar unwaith bod camau gweithredu wedi cael eu cymryd i fynd i'r afael â hyn. Mae'r ymateb wedi rhoi sicrwydd inni fod camau gweithredu priodol wedi cael eu cymryd.

Gwnaethom hefyd nodi bod angen gwneud rhai gwelliannau mewn perthynas â'r broses o ddadheintio offerynnau deintyddol. Roedd y gwelliannau hyn yn ymwneud â dangos bod gwiriadau wedi cael eu cynnal yn bennaf.

Er bod cofnodion deintyddol y cleifion wedi cael eu cynnal, gwnaethom nodi rhai meysydd i'w gwella ynghylch rheoli cofnodion.

Roedd gan y practis reolwr a oedd yn gweithio'n agos gyda pherchnogion y practis. Roedd ystod o bolisiâu a gweithdrefnau ar waith â'r bwriad o ddarparu gofal diogel. Gwnaethom argymhell y caiff manylion cyswllt y timau lleol eu cynnwys ym mholisiâu diogelu'r practis.

Dywedodd y staff wrthym eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi'n dda yn eu swyddogaethau, a bod cyfathrebu rhwng y tîm yn dda. Ar adeg ein harolygiad, nid oedd system ffurfiol ar gyfer arfarniadau staff ar waith. Gwnaethom argymhell bod system addas yn cael ei gweithredu er mwyn i anghenion hyfforddi ac anghenion datblygu'r staff gael eu nodi ynghyd â sut mae'r practis yn gallu eu cefnogi i gwrdd â'r anghenion hyn.

Gwnaethom argymell hefyd bod y practis yn adolygu'r weithdrefn gwyno er mwyn iddi fod yn gyson â'r trefniadau *Gweithio i Wella* a'r rheoliadau deintyddiaeth breifat.

Roedd adeilad y practis yn cael ei gynnal a'i gadw'n foddhaol y tu mewn a'r tu allan. Fodd bynnag, gwelsom fod angen diweddarau'r ystafelloedd clinigol rywfaint er mwyn hwyluso'r broses drylwyr o lanhau. Roedd perchnogion y practis eisoes wedi nodi bod angen gwella'r manau hyn.

Er bod rhagofalon diogelwch tân ar waith, nid oedd y weithdrefn i'w dilyn pe bai tân yn cael ei harddangos yn amlwg. Gwnaethom ofyn i berchnogion y practis gymryd camau gweithredu addas i fynd i'r afael â hyn.

5. Canfyddiadau

Profiad y Claf

Dyweddodd y cleifion a roddodd sylwadau inni yn ein holiaduron eu bod yn fodlon ar y gwasanaeth a ddarperir gan dîm y practis.

Nid oedd system ffurfiol ar waith i gasglu barn y cleifion yn rheolaidd. Gwnaethom argymhell bod perchnogion y practis yn gweithredu system addas i dderbyn adborth gan y cleifion, er mwyn nodi gwelliannau i'r gwasanaeth a'u gweithredu fel bo'n angenrheidiol.

Roedd tîm y practis yn gyfeillgar ac yn groesawgar, a gwelsom eu bod yn garedig ac yn barod eu cymorth i'r cleifion a oedd yn mynychu'r practis.

Gwnaethom wahodd cleifion a oedd yn mynychu'r practis ar ddiwrnod ein harolygiad i gwblhau holiaduron AGIC. Dychwelwyd cyfanswm o chwe holiadur wedi'u cwblhau. Dywedodd y cleifion a oedd wedi gwneud sylwadau eu bod yn fodlon ar y gwasanaeth yr oeddent wedi ei dderbyn gan y practis, eu bod wedi derbyn croeso mawr gan staff y practis, a'u bod wedi derbyn digon o wybodaeth am eu triniaeth. Roedd y sylwadau'n cynnwys:

'...mae pob aelod o staff yn gyfeillgar iawn, maen nhw'n tawelu eich meddwl.'

'Ydw, [mae'r gwasanaeth a ddarperir gan y practis deintyddol] yn ardderchog.'

'...mae'r practis yn lân iawn ac mae'n cael ei gynnal a'i gadw'n dda, ac mae'r holl staff yn hyfryd iawn.'

Roedd copïau o daflen y practis ar gael i'r cleifion fynd â nhw adref. Roedd yn cynnwys gwybodaeth am dîm y practis a'r gwasanaethau a ddarperir yn y practis. Er bod y daflen yn nodi bod y practis yn croesawu sylwadau gan y cleifion am y gwasanaeth, nid oedd system ffurfiol, reolaidd ar waith i dderbyn adborth ganddynt. Felly, gwnaethom argymhell bod perchnogion y practis yn cyflwyno system fwy ffurfiol i dderbyn adborth y cleifion, â'r bwriad o wella'r gwasanaeth fel bo'n angenrheidiol.

Y gwelliant sydd ei angen

Dylai perchnogion y practis weithredu system ffurfiol addas i dderbyn adborth gan y cleifion, â'r bwriad o wella'r gwasanaeth fel bo'n angenrheidiol.

Roedd system apwyntiadau hyblyg ar waith, a gwnaethom ganfod bod y cleifion yn gallu trefnu apwyntiadau ymlaen llaw yn ogystal ag ar sail argyfwng. Roedd hyn yn golygu y gall y bobl fod yn hyderus, pe baent yn teimlo poen ddeintyddol, bod system ar waith i sicrhau eu bod yn cael apwyntiad yn fuan.

Ar y cyfan, dywedodd y cleifion wrthym nad oeddent wedi profi unrhyw oedi wrth aros i gael eu gweld. Gwnaeth y staff ddisgrifio proses a oedd ar waith ar gyfer hysbysu'r cleifion pe bai eu deintydd yn hwyr neu'n absennol yn annisgwyl.

Gwelsom fod deunydd hyrwyddo iechyd yn cael ei arddangos yn glir yn yr ystafell aros. Roedd hyn yn golygu bod gwybodaeth berthnasol ar gael i'r cleifion er mwyn eu helpu i ofalu am hylendid eu ceg a'u hiechyd eu hunain.

Nid oedd yr holl gleifion yn ymwybodol o sut i leisio pryderon (cwynion) am eu triniaeth. Er bod gwybodaeth i'r cleifion yn cael ei harddangos, efallai bydd perchnogion y practis am archwilio ffyrdd o gynyddu ymwybyddiaeth y cleifion o'r weithdrefn.

Cyflenwi Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru

Roedd y cyfleusterau clinigol yn y practis yn cynnwys yr offer perthnasol ar gyfer diogelwch y cleifion a'r staff. Roedd gweithdrefnau ar waith i ymateb i argyfyngau cleifion.

Nid oedd rhai o ddogfennaeth allweddol, a oedd yn ymwneud â defnyddio'r offer pelydr-X yn ddiogel, ar gael ar gyfer ei harolygu. Gwnaethom nodi nad oedd archwiliadau rheoli heintiau rheolaidd wedi cael eu cynnal. Ar ôl ein harolygiad, gwnaethom ofyn i'r practis am sicrwydd ysgrifenedig ar unwaith bod camau gweithredu wedi cael eu cymryd i fynd i'r afael â hyn. Mae'r ymateb wedi rhoi sicrwydd inni fod camau gweithredu priodol wedi cael eu cymryd.

Gwnaethom hefyd nodi bod angen rhai o welliannau mewn perthynas â'r broses o ddadheintio offerynnau deintyddol. Roedd y gwelliannau hyn yn ymwneud â dangos bod gwiriadau wedi cael eu cynnal yn bennaf.

Er bod cofnodion deintyddol cleifion wedi cael eu cynnal, gwnaethom nodi bod rhai meysydd i'w gwella ynghylch rheoli cofnodion.

Cyfarpar/Dogfennaeth Radiograffeg

Gwnaethom ystyried y trefniadau a oedd ar waith ar gyfer defnyddio'r offer ymbelydredd yn ddiogel. Er bod dogfennaeth ar gael, ni allem fod yn sicr bod gwiriadau diogelwch offer wedi cael eu cwblhau am yr holl offer sy'n cael ei ddefnyddio yn y practis. At hynny, nid oedd tystiolaeth o lythyr hysbysu at y Gweithredwr Iechyd a Diogelwch fel bo'n ofynnol gan y Rheoliadau Ymbelydriadau Ioneiddio 1999². Nid oedd cofnodion ar gyfer staff perthnasol ar gael i ddangos eu bod wedi cwblhau hyfforddiant ymbelydredd ìoneiddio o fewn y pum mlynedd ddiwethaf fel bo'n angenrheidiol.

Felly, gwnaethom ofyn i'r practis roi sicrwydd ar unwaith bod systemau diogel ar waith ar gyfer defnyddio'r offer ymbelydredd.

² <http://www.hse.gov.uk/radiation/ionising/notification.htm>

Mater o Sicrwydd Ar Unwaith

Dylai'r practis gymryd camau gweithredu addas i ddangos ei fod yn gweithredu systemau diogel o ran defnyddio'r offer ymbelydredd.

Rhoddodd y practis sicrwydd ysgrifenedig inni fod camau gweithredu addas wedi cael eu cymryd o ran defnyddio'r offer ymbelydredd yn ddiogel.

Dadebru a Chymorth Cyntaf/Cyffuriau Brys

Roedd gan y practis weithdrefnau ar waith i ymateb ac ymdrin ag argyfyngau cleifion. Cadarnhaodd y rheolwr fod yr holl staff yn meddu ar hyfforddiant cyfredol am sut i ymdrin ag argyfyngau meddygol, a sut i berfformio adfywiad cardio-pwlmonaidd. Roedd offer dadebru a chyffuriau brys ar gael i'r staff ar gyfer argyfwng claf (cwmpiad) yn y practis. Fodd bynnag, nid oedd gan y practis ddiffibriliwr allanol awtomatig³ i'w ddefnyddio pe bai claf yn cael ataliad ar y galon. Mae diffibriliwr allanol awtomatig yn ffurfio rhan o'r offer mwyaf sylfaenol ar gyfer dadebru cardio-pwlmonaidd mewn practisau deintyddol sylfaenol, a argymhellir gan Gyngor Dadebru'r DU.⁴ Felly, gwnaethom argymhell bod perchnogion y practis yn gwneud trefniadau addas er mwyn sicrhau bod yr offer hwn ar gael i'r staff a'u bod yn gallu ei ddefnyddio yn ddiogel lle bo'n angenrheidiol mewn argyfwng.

Y gwelliant sydd ei angen

Dylai perchnogion y practis wneud trefniadau addas er mwyn sicrhau bod diffibriliwr allanol awtomatig ar gael i'r staff a'u bod yn gallu ei ddefnyddio'n ddiogel lle bo'n angenrheidiol mewn argyfwng.

Roedd cyffuriau brys yn y practis wedi'u storio'n ddiogel ac roedd system ar waith i waredu ar gyffuriau a oedd wedi dod i ben ac i roi rhai newydd yn eu lle.

³Diffibriliwr Allanol Awtomatig - dyfais yw hon y gellir ei defnyddio i roi sioc drydanol i galon person sy'n cael ataliad ar y galon er mwyn adfywio rhythm cyffredinol y galon.

⁴ Sefydlwyd Cyngor Dadebru'r DU i hyrwyddo canllawiau dadebru o ansawdd da, gwyddonol sy'n berthnasol i bawb, ac i gyfrannu at achub bywydau trwy addysg, hyfforddiant, gwaith ymchwil a chydweithrediad.

Trin, storio a gwaredu ar wastraff peryglus a gwastraff nad yw'n beryglus

Roedd contractau ar waith ar gyfer trosglwyddo a gwaredu ar wastraff a gynhyrchir gan y practis. Gwelsom fod gwastraff yn cael ei storio'n ddiogel wrth aros i gael ei gasglu. Roedd gweithdrefnau ysgrifenedig ac offer ar waith i ymdrin ag achosion o ollwng mercwri'n ddiogel.

Dadheintio offerynnau a chydymffurfedd â Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05

Gwnaethom ystyried y trefniadau ar gyfer dadheintio (glanhau a sterileiddio) yr offerynnau a ddefnyddir yn y practis.

Nid oedd gan y practis ystafell ddadheintio ar wahân. Gallai ystafell ar wahân, ynghyd â defnyddio gweithdrefnau rheoli priodol, leihau'r perygl o groes-heintio offerynnau ymhellach. Ar y cyfan, roedd y weithdrefn ar gyfer dadheintio offerynnau deintyddol yn foddhaol. Fodd bynnag, gwnaethom nodi meysydd i'w gwella er mwyn cydymffurfio â Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05⁵, ynghylch gwiriadau ac archwiliadau'r offer yn benodol.

Gwelsom fod brwshis gwifrau carn fer yn cael eu defnyddio; mae Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05 yn argymhell defnyddio carnau hir a blew plastig i atal difrod i'r offerynnau. Nid oedd thermomedrau'n cael eu defnyddio i fonitro tymheredd y dŵr er mwyn hwyluso proses effeithiol o lanhau.

Y gwelliant sydd ei angen

Dylai perchnogion y practis ystyried peidio â defnyddio'r brwshis gwifrau, a defnyddio thermomedrau yn unol â'r canllawiau a osodir ym Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05.

Gwelsom fod offerynnau wedi cael eu bagio a'u dyddio gan nodi'r dyddiad prosesu. Roedd system ar waith i sicrhau na fyddai offerynnau'n cael eu defnyddio pan fyddant wedi mynd heibio'u dyddiad dod i ben. Fodd bynnag, mae Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05 yn argymhell bod dyddiadau dod i ben yn cael eu cynnwys hefyd.

⁵ Mae dogfen Memorandwm Technegol Iechyd Cymru (WHTM 01-05) yn rhoi canllawiau ar ddadheintio i weithwyr proffesiynol mewn practisau gofal sylfaenol a phractisau deintyddol cymunedol.

Er bod cofnodion yn dangos bod gwiriadau dyddiol wedi cael eu cynnal yn ddiweddar ar gyfer yr awtoclaf, nid oedd taflenni o'r canlyniadau dyddiol yn cael eu cofnodi. Ni allem weld unrhyw gofnodion i ddangos bod gwiriadau'n cael eu cynnal ar y baddonau uwchsonig⁶.

Y gwelliant sydd ei angen

Mae angen cadw taflenni o ganlyniadau gwiriadau ar yr awtoclaf, neu eu hargraffu, yn unol â'r canllawiau a osodir ym Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05.

Dylai perchnogion y practis wneud trefniadau addas i ddangos bod gwiriadau addas yn cael eu cynnal ar y baddonau uwchsonig.

Ni allem weld unrhyw dystiolaeth bod archwiliadau rheoli heintiau rheolaidd wedi cael eu cwblhau yn unol â'r polisi a'r canllawiau a nodwyd ym Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05. Mae'n bosibl y byddai gwiriadau rheolaidd wedi nodi'r gwelliannau sydd eu hangen uchod. Felly, gofynnwyd i'r practis am sicrwydd ar unwaith y byddai archwiliadau o'r fath yn cael eu cwblhau. Mae hyn yn caniatáu i dimau deintyddol hunan-asesu eu harferion yn erbyn y polisi a'r canllawiau a osodir ynddo, a gwneud gwelliannau lle bo'n angenrheidiol i hyrwyddo systemau gwaith diogel.

Mater o Sicrwydd Ar Unwaith

Rhaid i'r practis gymryd camau gweithredu addas i sicrhau ei fod yn gallu dangos bod archwiliadau rheoli heintiau rheolaidd yn cael eu cwblhau. Dylid cymryd camau unioni priodol fel bo'n angenrheidiol o ganlyniad i ganfyddiadau'r archwiliadau.

Rhoddodd y practis fanylion inni o'r camau gweithredu a gymerwyd, ac rydym yn sicr bod trefniadau addas wedi cael eu gweithredu er mwyn cynnal archwiliadau rheoli heintiau rheolaidd.

Cyfleusterau clinigol

Gwnaethom edrych ar y cyfleusterau clinigol yn y ddwy ddeintyddfa a'r ystafell driniaeth. Gwelsom fod y rhain yn cynnwys yr offer perthnasol er mwyn sicrhau diogelwch y cleifion a'r staff. Fodd bynnag, fel y disgrifir yn nes ymlaen yn yr

⁶ Mae bath uwchsonig yn glanhau eitemau gan ddefnyddio uwchsain (fel arfer 20-400 cilohertz) a hydoddydd glanhau priodol.

adroddiad hwn, byddai'r rhain yn elwa ar gael eu diweddarau. Roedd trefniadau ar waith i ddiogelu cyfrinachedd y cleifion wrth dderbyn triniaeth.

Roedd cyfleusterau golchi dwylo ac offer diogelu untro ar gael i leihau'r perygl o groes-heintio. Fodd bynnag, roedd cynwysyddion golchi dwylo sy'n gallu cael eu hail-lenwi'n cael eu defnyddio. Gall y rhain fod yn ffynhonnell haint posib a dylid defnyddio peiriannau hylif golchi dwylo gyda chetris untro, wedi eu gosod ar y wal, yn eu lle fel yr argymhellir ym Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05.

Y gwelliant sydd ei angen

Dylai perchnogion y practis wneud trefniadau addas i brynu cynwysyddion golchi dwylo newydd sy'n gallu cael eu hail-lenwi yn unol â Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05.

Cofnodion deintyddol cleifion

Gwnaethom edrych ar sampl o 10 o gofnodion deintyddol cleifion. Roedd y sampl hwn yn ystyried cofnodion sy'n cael eu cynnal a'u cadw gan y ddau ddeintydd sy'n gweithio yn y practis. Roedd cofnodion ar bapur yn cael eu defnyddio. Ar y cyfan, roedd cofnodion wedi cael eu cynnal a'u cadw gan nodi'r rheswm pam roedd cleifion yn mynychu'r practis, y gofal a'r driniaeth a ddarparwyd a'r cyngor a roddwyd gan y deintydd. Fodd bynnag, gwnaethom nodi bod angen gwella'r cofnod ysmygu ac yfed alcohol (i nodi p'un a oedd cyngor ar hyrwyddo iechyd yn cael ei gynnig) a sgrinio ar gyfer canser y geg. Nid oedd cadarnhad y cleifion o'u cydsyniad am driniaeth wedi cael ei gofnodi'n rheolaidd chwaith. At hynny, nid oedd hanes meddygol ysgrifenedig y cleifion bob amser yn dangos ei fod wedi cael ei ddiweddarau na'i lofnodi/cydlofnodi gan y cleifion/deintydd cyn derbyn pob triniaeth.

Y gwelliant sydd ei angen

Rhaid i berchnogion y practis wneud trefniadau addas i sicrhau bod manylion am ysmygu ac yfed alcohol, (a ph'un a oedd cyngor ar hyrwyddo iechyd yn cael ei gynnig), a sgrinio ar gyfer canser y geg yn cael eu cofnodi'n briodol yng nghofnodion deintyddol cleifion. Dylid hefyd cofnodi cydsyniad parhaus y cleifion am driniaeth.

Y gwelliant sydd ei angen

Dylai perchnogion y practis wneud trefniadau addas i sicrhau bod hanes meddygol yn cael ei gydlofnodi gan y deintydd.

Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Roedd gan y practis reolwr a oedd yn gweithio'n agos gyda pherchnogion y practis. Roedd ystod o bolisïau a gweithdrefnau ar waith â'r bwriad o ddarparu gofal diogel. Gwnaethom argymell bod manylion cyswllt timau lleol yn cael eu cynnwys ym mholisïau diogelu'r practis.

Dywedodd y staff wrthym eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi'n dda yn eu swyddogaethau, a bod cyfathrebu rhwng y tîm yn dda. Ar adeg ein harolygiad, nid oedd system ffurfiol ar gyfer arfarniadau staff ar waith. Gwnaethom argymell bod system addas yn cael ei gweithredu er mwyn i anghenion hyfforddi ac anghenion datblygu'r staff gael eu nodi ynghyd â sut mae'r practis yn gallu eu cefnogi i gwrdd â'r anghenion hyn.

Gwnaethom argymell hefyd bod y practis yn adolygu'r weithdrefn gwyno er mwyn iddi fod yn gyson â threfniadau *Gweithio i Wella* a'r rheoliadau deintyddiaeth breifat.

Roedd gan y practis reolwr a oedd yn gweithio'n agos gyda pherchnogion y practis (deintyddion). Roeddem o'r farn bod y staff yn gweithio'n dda gyda'i gilydd.

Cadarnhaodd y practis fod yr holl staff clinigol wedi'u cofrestru gyda'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ac roedd ganddynt yswiriant indemniad. Roedd y ddau ddeintydd yn darparu gofal deintyddol preifat ac roeddent wedi'u cofrestru gydag Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru yn unol â gofynion y Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008⁷. Roedd eu tystysgrifau AGIC yn cael eu harddangos yn unol â'r rheoliadau.

Roedd gan y practis ystod o bolisïau a gweithdrefnau perthnasol â'r bwriad o ddarparu gofal a thriniaeth diogel i'r cleifion. Roeddent yn cynnwys polisïau o ran diogelu plant ac oedolion sy'n agored i niwed. Er bod polisïau ar waith, byddai'n dda pe baent yn cynnwys manylion cyswllt y timau diogelu lleol. Byddai hyn yn darparu gwybodaeth i'r staff am bwy i gysylltu ag ef am gyngor ar faterion o'r fath. Cadarnhaodd y staff eu bod wedi mynychu hyfforddiant, er nad oedd cofnodion hyfforddi ar gael i ddangos hyn. Gwnaethom argymell bod perchnogion y practis yn gwneud trefniadau i ddiweddarau'r polisïau hyn gan

⁷ Daeth Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008 i rym ar 1 Ionawr 2009.

gynnwys manylion cyswllt y timau diogelu lleol, a sicrhau bod y staff wedi mynychu hyfforddiant diogelu priodol.

Y gwelliant sydd ei angen

Dylai perchnogion y practis wneud trefniadau addas i ddiweddarau polisiau diogelu'r practis gan gynnwys manylion cyswllt y timau diogelu lleol.

Dylai perchnogion y practis hefyd sicrhau bod staff y practis wedi'u hyfforddi'n addas a'u bod yn gallu ymateb i faterion diogelu posibl.

Roedd cofnodion ar gael a oedd yn cadarnhau bod y staff perthnasol sy'n gweithio yn y practis wedi derbyn brechiadau rhag *Hepatitis B*. Roedd hyn yn golygu bod y staff wedi cymryd camau gweithredu priodol i sicrhau eu diogelwch a diogelwch y cleifion.

Dywedodd y staff wrthym eu bod yn teimlo bod hen ddigon o gymorth iddynt yn eu swyddogaethau, ac y byddent yn fodlon lleisio unrhyw bryderon posibl sydd ganddynt, sy'n ymwneud â'r gwaith, â rheolwr y practis neu'r deintyddion. Dywedodd y staff wrthym fod cyfathrebu rhyngddynt yn dda. Er i'r staff gadarnhau bod cyfarfodydd practis yn cael eu cynnal, roeddem o'r farn mai anaml roeddent yn digwydd. Mae'n bosibl y bydd perchnogion y practis am adolygu'r trefniadau ar gyfer cyfarfodydd tîm y practis er mwyn cryfhau dulliau cyfathrebu sydd eisoes yn bodoli. Dywedodd rheolwr y practis wrthym nad oedd system ffurfiol ar gyfer arfarniadau staff ar waith. Dywedwyd wrthym fod gwybodaeth berthnasol wedi cael ei chasglu wrth gynllunio i gyflwyno system, a gwnaethom argymhell eu bod yn rhoi blaenoriaeth i weithredu system.

Y gwelliant sydd ei angen

Dylai'r bwrdd iechyd wneud trefniadau addas i sicrhau bod y staff sy'n gweithio yn y practis yn derbyn arfarniad blynyddol o'u gwaith. Dylai'r system hon nodi anghenion dysgu ac anghenion datblygu'r staff a sut y gallai'r practis gefnogi'r anghenion hyn.

Dywedodd y staff eu bod yn gallu cwblhau hyfforddiant a oedd yn berthnasol i'w swyddogaethau a'u datblygiad proffesiynol parhaus. Fodd bynnag, ar ddiwrnod ein harolygiad, nid oedd dogfennaeth i gefnogi'r hyfforddiant a fynychwyd ar gael.

Gwelsom fod dogfennaeth gontract ar waith ar gyfer cynnal a chadw cyfarpar tân. Er bod gohebiaeth ar gael a oedd yn awgrymu bod contract ar waith ar gyfer cyfarpar nwy drwy brif gyflenwad, ni allem gadarnhau fod hyn yn gyfredol.

Gwnaethom hysbysu rheolwr y practis o'n canfyddiadau a chytunodd i wirio bod contract addas ar waith.

Roedd y practis yn darparu gofal deintyddol y GIG a gofal deintyddol preifat. Roedd gwybodaeth i'r cleifion am sut i leisio pryder (cwyn) wedi'i harddangos yn yr ystafell aros.

Gwnaethom edrych ar y weithdrefn gwyno ysgrifenedig. Nid oedd hon yn unol â *Gweithio i Wella*, sef y trefniadau ar gyfer ymdrin â chwynion am ofal a thriniaeth y GIG yng Nghymru. At hynny, nid oedd y weithdrefn yn cynnwys manylion cyswllt Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru, fel yr hyn sy'n ofynnol gan y rheoliadau o ran gwasanaethau deintyddol preifat. Gwnaethom argymhell felly bod y practis yn adolygu'r weithdrefn ac yn sicrhau ei bod yn gyson â'r trefniadau *Gweithio i Wella* a gofynion y rheoliadau o ran gofal deintyddol preifat.

Y gwelliant sydd ei angen

Rhaid i'r practis adolygu'r weithdrefn gwyno gyfredol a sicrhau ei bod yn gyson â 'Gweithio i Wella' a gofynion Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008.

Esboniodd rheolwr y practis y byddai'r practis yn ceisio datrys pryderon (cwynion) yn y fan a'r lle, le bo'n bosibl. Roedd rheolwr y practis yn gallu disgrifio enghraifft o gam gweithredu a wnaeth wella'r gwasanaeth yn dilyn un o'r cwynion anffurfiol/llafar a dderbyniwyd. Roedd hyn yn cynnwys newid neges y peiriant ateb er mwyn i'r wybodaeth a ddarperir fod yn gliriach i'r cleifion. Er i reolwr y practis ddisgrifio enghraifft, dywedodd nad oedd system ar waith i gofnodi cwynion llafar/anffurfiol.

Y gwelliant sydd ei angen

Dylai'r practis ystyried gweithredu system addas i gofnodi cwynion llafar/anffurfiol, er mwyn nodi themâu a thueddiadau. Dylid cymryd camau gweithredu a nodwyd i wella'r gwasanaeth fel bo'n briodol.

O ystyried nifer yr argymhellion a nodwyd yn ystod yr arolygiad hwn, dylid rhoi ystyriaeth i sicrhau bod trefniadau mwy effeithiol a rhagweithiol ar waith yn y practis, ar gyfer monitro cydymffurfedd â'r rheoliadau a'r safonau perthnasol. Er na wnaed unrhyw argymhelliad penodol yn hyn o beth, disgwylir y bydd tystiolaeth o welliant amlwg ynglŷn â hyn yn yr arolygiad nesaf.

Ansawdd yr Amgylchedd

Roedd adeilad y practis yn cael ei gynnal a'i gadw'n foddhaol y tu mewn a'r tu allan. Fodd bynnag, gwelsom fod angen diweddarau'r ystafelloedd clinigol rywfaint er mwyn hwyluso'r broses drylwyr o lanhau. Roedd perchnogion y practis eisoes wedi nodi bod angen gwneud y gwelliannau hyn.

Er bod rhagofalon diogelwch tân ar waith, nid oedd y weithdrefn i'w dilyn pe bai tân yn cael ei harddangos yn amlwg. Rydym wedi gofyn i berchnogion y practis gymryd camau gweithredu addas i fynd i'r afael â hyn.

Mae Practis Deintyddol Woodlands yn darparu gwasanaethau mewn lleoliad sy'n agos i dref Castell-nedd.

Roedd maes parcio bach yn uniongyrchol o flaen y practis y gallai'r cleifion ei ddefnyddio. Roedd lle ychwanegol i barcio ar gael mewn meysydd parcio yn y dref a oedd yn agos i'r practis. Er bod enw'r practis yn cael ei arddangos, mae'n bosibl y bydd perchnogion y practis am ystyried gosod mwy o arwyddion i'w gwneud yn haws dod o hyd i'r practis o'r brif heol. Roedd enwau a chymwysterau'r deintyddion yn cael eu harddangos. Er bod manylion oriau agor y practis a'r rhif ffôn brys y tu allan i oriau ar gael yn nhaflen y practis, dylid gwneud trefniadau i arddangos y manylion hyn er mwyn iddynt gael eu gweld o'r tu allan. Byddai hyn yn golygu y byddai'r cleifion sy'n mynychu'r practis pan fydd ar gau yn cael eu cyfeirio at rif i'w ffonio am gyngor pan fydd angen triniaeth ddeintyddol frys.

Nid oedd prif fynedfa'r practis yn addas i bobl sy'n defnyddio cadair olwyn oherwydd gris a maint y cyntedd. Dywedwyd wrthym fod defnyddwyr cadair olwyn yn gallu dod i mewn i'r practis trwy'r fynedfa gefn, trwy drefnu hyn ymlaen llaw a chyda chymorth y staff.

Roedd y practis ar lawr daear yr adeilad ac yn cynnwys derbynfa yn yr ystafell aros, dwy ddeintyddfa ac ystafell driniaeth yr hylenydd. Roedd hefyd ystafell staff a oedd yn cael ei hadnewyddu er mwyn gwella'r cyfleusterau i'r staff. Yn ystod taith o gwmpas y practis, gwelsom fod y manau hyn yn lân ac yn daclus ar y cyfan, ac roeddent wedi'u goleuo a'u hawyru'n addas. Gwnaeth ein harsylwadau nodi bod maint y man aros yn briodol o ystyried nifer y deintyddfeydd a nifer y cleifion a oedd yn mynychu'r practis ar y diwrnod.

Roedd yr ystafell aros yn darparu lle cyfforddus i'r cleifion aros i gael eu gweld gan y deintydd neu'r hylenydd.

Gwelsom fod angen diweddarau'r ddwy ddeintyddfa a'r ystafell driniaeth. Roedd carpedi ar lawr rhan o'r deintyddfeydd ac roedd yn anodd eu glanhau'n drylwyr. Gwelsom hefyd y byddai'n well pe bai cypyrddau newydd yn cael eu prynu i'r ystafell driniaeth. At hynny, nid oedd ymylon y cypyrddau a'r llawr yn yr ystafell driniaeth wedi cael eu selio'n effeithiol rhwng y wal a'r llawr. Gallai hyn olygu bod dŵr, llwch a darnau'n cael eu casglu mewn corneli, ac felly yn creu perygl heintio posibl. Roedd perchnogion y practis eisoes wedi nodi bod angen gwella'r cyfleusterau clinigol, ac roeddent yn ystyried y gwaith diweddarau angenrheidiol fel rhan o gynlluniau datblygu yn y dyfodol ar gyfer y practis. Fel arall, roeddem o'r farn bod adeilad y practis yn cael ei gynnal a'i gadw'n foddhaol y tu mewn a'r tu allan.

Roedd gan y practis gyfleusterau toiled ar gyfer y staff a'r cleifion. Roedd y rhain yn lân ac yn cynnwys offer golchi dwylo addas i atal croes-heintio.

Roedd rhagofalon diogelwch ar waith i atal mynediad i'r adeilad heb awdurdod. Roedd yr allanfeydd tân wedi'u nodi'n glir ar gyfer y cleifion a'r staff. Gwnaethom gynghori rheolwr y practis bod angen arddangos cyfarwyddiadau tân addas hefyd, er mwyn cynghori'r staff a'r cleifion am y weithdrefn gywir i'w dilyn pe bai tân. Cytunodd rheolwr y practis i sicrhau bod y rhain yn cael eu harddangos.

Yr hyn sydd angen ei wella

Dylai perchnogion y practis wneud trefniadau addas i sicrhau bod cyfarwyddiadau diogelwch tân yn cael eu harddangos yn amlwg yn y practis.

Roedd labeli gwaith cynnal a chadw'r diffoddwyr tân yn dangos bod gwiriadau wedi cael eu cynnal o fewn y 12 mis diwethaf.

6. Y Camau Nesaf

O ganlyniad i'r arolygiad hwn, mae angen i'r practis deintyddol gwblhau cynllun gwella mewn perthynas â phrofiad y claf, cyflenwi *Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd*, rheolaeth ac arweinyddiaeth ac ansawdd yr amgylchedd. Gellir gweld y manylion hyn yn Atodiad A yr adroddiad hwn.

Dylai'r cynllun gwella nodi'n glir pryd a sut y bydd Practis Deintyddol Woodlands yn mynd i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd yn y practis, gan gynnwys amserlenni ar gyfer hynny.

Bydd y cynllun gwella, unwaith y cytunir arno, yn cael ei gyhoeddi ar wefan AGIC, ac fe gaiff ei werthuso fel rhan o'r broses arolygu deintyddol barhaus.

Atodiad A

Practis Deintyddol Cyffredinol: Cynllun Gwella

Practis: Practis Deintyddol Woodlands

Dyddiad yr Arolygiad: 23 Chwefror 2015

Rhif y Dudalen	Y Gwelliant sydd ei Angen	Cam Gweithredu'r Practis	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
Profiad y Claf				
7	Dylai perchnogion y practis weithredu system ffurfiol addas i dderbyn adborth gan y cleifion, â'r bwriad o wella'r gwasanaeth fel bo'n angenrheidiol.			
Cyflenwi Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru				
10	<u>Mater o Sicrwydd Ar Unwaith</u> Dylai'r practis gymryd camau gweithredu addas i ddangos ei fod yn gweithredu systemau diogel o ran defnyddio offer ymbelydredd.	[Yn y cynllun sicrwydd ar unwaith sy'n ddyddiedig 5 Mawrth 2015, cadarnhaodd perchnogion y practis: Gwnaed cais i'r Gweithredwr Iechyd a Diogelwch mewn perthynas â llythyr hysbysu ynghylch diogelu rhag ymbelydredd.	C. Davies C. Davies	Ar unwaith 6 Mawrth 25 Mawrth

Rhif y Dudalen	Y Gwelliant sydd ei Angen	Cam Gweithredu'r Practis	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
		<p>Mae gwiriadau offer wedi cael eu trefnu ar gyfer 6 a 25 Mawrth. Mae angen i un ddeintyddfa gael ei harchwilio'n feirniadol ac mae angen i'r ddwy ddeintyddfa gael eu gwasanaethu'n flynyddol.</p> <p>Mae'r ddau ymarferydd wedi cael hyfforddiant y Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) o fewn y pum mlynedd ddiwethaf.]</p>	C. Davies E. Webster	Dd/B
10	Dylai perchnogion y practis wneud trefniadau addas er mwyn sicrhau bod diffibriliwr allanol awtomatig ar gael i staff a'u bod yn gallu ei ddefnyddio'n ddiogel lle bo'n angenrheidiol mewn argyfwng.			
11	Dylai perchnogion y practis roi'r gorau i ddefnyddio'r brwshis gwifrau a defnyddio thermomedrau yn unol â'r canllawiau a osodir ym Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05.			
12	<p>Mae angen cadw taflenni o ganlyniadau gwiriadau ar yr awtoclaf, neu eu hargraffu, yn unol â'r canllawiau a osodir ym Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05.</p> <p>Dylai perchnogion y practis wneud</p>			

Rhif y Dudalen	Y Gwelliant sydd ei Angen	Cam Gweithredu'r Practis	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
	trefniadau addas i ddangos bod gwiriadau addas yn cael eu cynnal ar y baddonau uwchsonig.			
12	<p><u>Mater o Sicrwydd Ar Unwaith</u></p> <p>Rhaid i'r practis gymryd camau gweithredu addas i sicrhau ei fod yn gallu dangos bod archwiliadau rheoli heintiau rheolaidd yn cael eu cwblhau. Dylid cymryd camau unioni priodol fel bo'n angenrheidiol o ganlyniad i ganfyddiadau'r archwiliadau.</p>	<p>[Yn y cynllun sicrwydd ar unwaith sy'n ddyddiedig 5 Mawrth 2015, cadarnhaodd perchnogion y practis:</p> <p>Mae teclyn archwilio wedi cael ei lawrlwytho i'w ddefnyddio'n rheolaidd yn y practis.]</p>	C. Davies E. Webster	Ar unwaith
13	Dylai perchnogion y practis wneud trefniadau addas i brynu cynwysyddion golchi dwylo newydd sy'n gallu cael eu hail-lenwi yn unol â Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05.			
13	Rhaid i berchnogion y practis wneud trefniadau addas i sicrhau bod manylion ysmegu ac yfed alcohol, (a ph'un a oedd cyngor ar hyrwyddo iechyd yn cael ei gynnig), a sgrinio ar gyfer canser y geg yn cael eu cofnodi'n briodol yng nghofnodion deintyddol cleifion. Dylid hefyd cofnodi cydsyniad parhaus y cleifion am driniaeth.			
13	Dylai perchnogion y practis wneud			

Rhif y Dudalen	Y Gwelliant sydd ei Angen	Cam Gweithredu'r Practis	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
	trefniadau addas i sicrhau bod hanes meddygol yn cael ei gydlofnodi gan y deintydd.			
Rheolaeth ac Arweinyddiaeth				
15	<p>Dylai perchnogion y practis wneud trefniadau addas i ddiweddarau polisïau diogelu'r practis gan gynnwys manylion cyswllt y timau diogelu lleol.</p> <p>Dylai perchnogion y practis hefyd sicrhau bod staff y practis wedi'u hyfforddi'n addas a'u bod yn gallu ymateb i faterion diogelu posibl.</p>			
15	Dylai'r bwrdd iechyd wneud trefniadau addas i sicrhau bod y staff sy'n gweithio yn y practis yn derbyn arfarniad blynyddol o'u gwaith. Dylai'r system hon nodi anghenion dysgu ac anghenion datblygu'r staff a sut y gallai'r practis gefnogi'r anghenion hyn.			
16	Rhaid i'r practis adolygu'r weithdrefn gwyno gyfredol a sicrhau ei bod yn gyson â 'Gweithio i Wella' a gofynion Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008.			
16	Dylai'r practis ystyried gweithredu system addas i gofnodi cwynion llafar/anffurfiol, er			

Rhif y Dudalen	Y Gwelliant sydd ei Angen	Cam Gweithredu'r Practis	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
	mwyn nodi themâu a thueddiadau. Dylid cymryd camau gweithredu i wella'r gwasanaeth fel bo'n briodol.			
Ansawdd yr Amgylchedd				
18	Dylai perchnogion y practis wneud trefniadau addas i sicrhau bod cyfarwyddiadau diogelwch tân yn cael eu harddangos yn amlwg yn y practis.			

Cynrychiolydd y Practis:

Enw (llythrennau bras):

.....

Teitl:

.....

Dyddiad:

.....